RHONDDA CYNON TAF

# Arolwg o Ffiniau Cymunedol: Argymhellion Terfynol – Gwybodaeth Ategol

## Mawrth 2025

# CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF

## AROLWG O’R TREFNIADAU CYMUNEDOL:

## ARGYMHELLION TERFYNOL

**Cynnwys** **Tudalen**


| | | |
|---|---|---|
| Pennod 1 | Cyflwyniad | 3 |
| Pennod 2 | Cyd-destun a gweithdrefn yr arolwg | 4 |
| Pennod 3 | Argymhellion Terfynol | 6 |
| Pennod 4 | Ymateb i Argymhellion Terfynol Y Cyngor | 7 |

## Pennod 1. CYFLWYNIAD

1. Mae'r ddogfen hon yn cyd-fynd ag Adroddiad Argymhellion Terfynol y mae'r Cyngor yn ei gyhoeddi ar ôl cwblhau arolwg o ffiniau cymunedol o dan adran 25 Deddf 2013.

2. Mae Adroddiad Argymhellion Terfynol yn cynnwys argymhellion ar gyfer newidiadau i ffiniau cymunedol yn yr ardal sy'n destun arolwg (yn ogystal ag argymhellion posibl ar gyfer newidiadau ôl-ddilynol i drefniadau eraill). Mae'r Cyngor yn cyflwyno'i adroddiad i'r Comisiwn. Gwaith y Comisiwn, os ystyriant fod hynny'n briodol, i roi grym (gydag addasiad neu heb addasiad) i rai o'r argymhellion neu'r holl argymhellion a gynhwysir yn yr adroddiad.

3. Mae Deddf 2013 yn mynnu bod y Comisiwn yn aros am gyfnod o 6 wythnos o leiaf cyn gwneud unrhyw Orchymyn sy'n deillio o'r adroddiad. Yn ystod y cyfnod hwnnw, gall unrhyw un sydd â diddordeb yn nhestun Adroddiad Argymhellion Terfynol y Cyngor ddweud eu barn wrth y Comisiwn am argymhellion y Cyngor.

4. Mae'r ddogfen hon yn darparu gwybodaeth gyffredinol am y cyd-destun, gweithdrefn ac ystyriaethau perthnasol ar gyfer arolwg y Comisiwn. Mae rhagor o wybodaeth am yr Adolygiad ar gael ar wefan y Cyngor.

## Pennod 2. CYD-DESTUN A GWEITHDREFN AR GYFER YR AROLWG

### Cyd-destun

1. O dan Ddeddf 2013, mae gan bob prif gyngor ddyletswydd i fonitro'r cymunedau yn ei ardal, a threfniadau etholiadol y cymunedau hynny at ddibenion ystyried p'un ai i wneud neu argymell newidiadau. Caiff y newidiadau hyn eu gwneud drwy arolwg o ffiniau cymunedol neu arolwg etholiadol cymunedol.
2. Mae hefyd yn ofynnol i brif gynghorau gyhoeddi adroddiad bob 10 mlynedd ar y modd y maent wedi cydymffurfio â'u dyletswyddau i fonitro ac adolygu.
3. Mae'r Ddeddf yn pennu gofyniad ar y prif gynghorau, wrth gyflawni eu dyletswyddau, i geisio sicrhau llywodraeth leol effeithiol a chyfleus.

### Ynglŷn ag arolygon o ffiniau cymunedol

4. Mae arolwg o ffiniau cymunedol yn arolwg o ffiniau un neu fwy o gymunedau o fewn ardal prif gyngor. Gallai hyn fod yn briodol yn arbennig os yw datblygiadau tai newydd wedi gwneud gwahaniaethau sylweddol i'r map neu batrymau anheddiad o fewn ardal, os oes anghysonderau nad ydynt wedi'u nodi mewn arolygon blaenorol (er enghraifft, cyrsiau golff wedi'u rhannu ar draws dwy gymuned, neu ardaloedd lle mae ffordd fechan neu ffordd bengaead wedi'i 'rhannu' o weddill cymuned), neu os oes newidiadau i gyrsiau dŵr neu dirddaliadau mawr, fel ffermydd.
5. Ar ddiwedd arolwg o ffiniau cymunedol o dan adran 25 Deddf 2013, gall y Cyngor argymell *"y newidiadau hynny i ffiniau cymunedol y mae o'r farn eu bod yn briodol".* Yn y cyd-destun hwn, mae "newid i ffiniau cymunedol" yn golygu newid i ffin cymuned bresennol, neu ddileu cymuned bresennol a/neu greu cymuned newydd

6. Lle mae'r Cyngor yn argymell newidiadau i'r Comisiwn i ffiniau cymunedol ar ddiwedd arolwg o ffiniau cymunedol, mae ganddo'r pŵer hefyd i argymell mathau penodol o newid pellach lle mae'r newidiadau pellach yn ganlyniad y newidiadau i ffiniau. Y newidiadau pellach a ganiateir yw:

   - "newidiadau i gynghorau cymuned", sy'n golygu diddymu cyngor cymuned presennol, sefydlu cyngor cymuned newydd, neu ychwanegu cymunedau at (neu dynnu cymunedau o) gyngor cymuned cyffredin; a

   - "newidiadau cysylltiedig i drefniadau etholiadol" un neu fwy o'r cymunedau sy'n destun arolwg neu o'r brif ardal. Yn y cyd-destun hwn, mae "trefniadau etholiadol cymuned" yn cyfeirio at nifer aelodau cyngor cymuned ac unrhyw drefniadau ar gyfer rhannu'r gymuned yn wardiau at ddibenion etholiadau i'r cyngor cymuned, tra bod ystyr tebyg i "drefniadau etholiadol y brif ardal" mewn cysylltiad â'r prif gyngor.

**Gweithdrefn**

9. Mae'r weithdrefn ar gyfer arolwg o ffiniau cymunedol wedi'i phennu gan adrannau 34 i 36 Deddf 2013. I grynhoi'n fras, mae'r darpariaethau hyn yn mynnu bod pedwar "cam".

10. Yn gyntaf, yn y cam "cyhoeddusrwydd cychwynnol", mae'r Cyngoryn cyhoeddi'r arolwg i bartïon â buddiant (gan gynnwys "ymgyngoreion gorfodol" a bennir gan Ddeddf 2013).

11. Yn ail, yn y cam "ymchwilio cychwynnol", mae'n ofynnol i'r Comisiwn *"ymgynghori â'r ymgyngoreion gorfodol a'r personau eraill hynny y mae o'r farn eu bod yn briodol" ac i "gynnal yr ymchwiliadau hynny y mae o'r farn eu bod yn briodol".* Yn y cam hwn, bydd y Cyngor, yn gyffredinol, yn caniatáu cyfnod ymgynghori cychwynnol rhwng 6 a 12 wythnos. Yn ystod y cyfnod hwn, bydd y Cyngor fel arfer yn derbyn barnau a chynigion rhagarweiniol ar gyfer trefniadau cymunedau lleol gan bartïon lleol â buddiant, a allai gynnwys y prif gyngor, y pleidiau gwleidyddol a gynrychiolir ar y cyngor a thrigolion lleol. Bydd y Cyngor yn ystyried y barnau a'r ymatebion y mae'n eu derbyn, a bydd yn ystyried p'un a ddylai wneud cynigion ar gyfer newidiadau i'r ffiniau cymunedol (a threfniadau cysylltiedig) sy'n destun arolwg.

12. Yn drydydd, yn y cam "cynigion drafft", mae'n ofynnol i'r Cyngor baratoi adroddiad yn disgrifio proses yr arolwg y mae wedi'i chynnal ac unrhyw gynigion ar gyfer newid y mae o'r farn eu bod yn briodol. Mae'r Cyngor yn cyfeirio at yr adroddiad hwn fel ei "Adroddiad Cynigion Drafft". Pan fydd yr Adroddiad Cynigion Drafft wedi'i gyhoeddi, mae'n ofynnol i'r Cyngor ganiatáu "cyfnod ar gyfer cyflwyno cynrychiolaethau", sy'n para rhwng 6 a 12 wythnos, pan fydd aelodau'r cyhoedd a phartïon eraill â buddiant yn gallu hysbysu'r Cyngor am eu barnau a'u hymatebion i'r cynigion ar gyfer newid a ddisgrifiwyd yn adroddiad y Cyngor.

13. Yn bedwerydd, yn ystod y cam "argymhellion terfynol", mae'n ofynnol i'r Cyngor ystyried eto ei gynigion ar gyfer newid gan roi ystyriaeth i unrhyw gynrychiolaethau y mae wedi'u derbyn yn ystod y cyfnod ar gyfer cyflwyno cynrychiolaethau. Wedyn, mae'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi adroddiad yn disgrifio unrhyw argymhellion ar gyfer newidiadau i ffiniau cymunedol (a threfniadau cysylltiedig) y mae'r Cyngor o'r farn eu bod yn briodol. Mae'r Cyngor yn cyfeirio at yr adroddiad hwn fel ei "Adroddiad Argymhellion Terfynol". Mae'n rhaid i'r Adroddiad Argymhellion Terfynol ddisgrifio'r arolwg y mae'r Cyngor wedi'i gynnal, yr ymgynghoriad y mae wedi'i gynnal mewn cysylltiad â'i Adroddiad Cynigion Drafft, ac unrhyw ffyrdd newydd y mae argymhellion y Cyngor yn gwahaniaethu oddi wrth y cynigion yn yr Adroddiad Cynigion Drafft, gydag esboniad ar gyfer y gwahaniaeth.

14. Mae'n ofynnol i'r Cyngor gyflwyno'i Adroddiad Argymhellion Terfynol i'r Comisiwn. Mae'r pŵer gan y Comisiwn (ond nid oes rhwymedigaeth arnynt) i wneud Gorchymyn sy'n gweithredu unrhyw un neu fwy o argymhellion y Cyngor, gydag addasiadau neu heb addasiadau.

## Pennod 3. ARGYMHELLION TERFYNOL

1. Mae Adroddiad Argymhellion Terfynol y Cyngor yn cynnwys argymhellion y Cyngor ar gyfer newidiadau i ffiniau cymunedol a materion ôl-ddilynol eraill yn yr ardal sy’n destun arolwg.

2. Ym mhob achos lle mae’r Cyngor yn argymell newid, mae’r adroddiad yn nodi:

   - disgrifiad byr o’r ardal gymunedol a’r trefniadau cymunedol presennol, gan gynnwys enwau, niferoedd etholwyr a threfniadau wardio (os yw’n gymwys);
   - prif ddadleuon a wnaed yn ystod ystyriaethau’r Cyngor;
   - cyfansoddiad y trefniadau cymunedol a argymhellir; a,
   - map o’r gymuned a/neu’r ward gymunedol a argymhellir.

3. Lle mae’r Cyngor yn argymell newidiadau i ffiniau, bydd hefyd wedi ystyried canlyniadau’r newidiadau hynny ar gyfer trefniadau etholiadol y gymuned a’r brif ardal. Mae adran *Trefniadau Ôl-ddilynol* yr Adroddiad Argymhellion Terfynol yn nodi manylion argymhellion ar gyfer y cyfryw newidiadau ôl-ddilynol.

## Pennod 4. YMATEBION I ADRODDIADAU ARGYMHELLION TERFYNOL

1. Ar ôl cwblhau arolwg o ardaloedd cymunedol prif gyngor a chyflwyno argymhellion y Cyngor i'r Comisiwn ar y trefniadau cymunedol ar gyfer y prif gyngor yn y dyfodol, mae'r Cyngor wedi cyflawni ei rwymedigaethau statudol o dan y Ddeddf.

2. Gwaith y Comisiwn yn awr, os ystyria fod hynny'n briodol, yw rhoi grym i'r argymhellion hynny naill ai fel y'u cyflwynwyd, neu gydag addasiadau.

3. Dylai unrhyw sylwadau pellach yn ymwneud â materion mewn Adroddiadau Argymhellion Terfynol gael eu cyfeirio at y Comisiwn. Dylid eu gwneud cyn gynted ag y bo modd a, beth bynnag, dim hwyrach na chwe wythnos o'r dyddiad y cyflwynir argymhellion y Cyngor i'r Comisiwn. Dylid cyfeirio cynrychiolaethau at:

Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru
4ydd Llawr
Adeilad Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd CF10 3NQ

Neu ebost i : ymgynghoriadau@cffdc.llyw.cymru